Bwrdd Busnes Asiantaeth Tŷ'r Cwmnïau – Crynodeb o'r Cofnodion – 24 Mehefin 2009

Cerdyn Sgorio Busnes Tŷ'r Cwmnïau (gan gynnwys y Grŵp Perchnogaeth Gwasanaethau) – Mai 2009
Bu i'r Bwrdd fonitro'r cerdyn sgorio ym maes busnes, gan olrhain y cyflawniad yn ôl y targedau a osodwyd a chan nodi'r cynnydd a wnaed yn ôl y rhestr o eitemau oedd i'w gwireddu. Pleser gan y Bwrdd oedd nodi bod cam un o drefn e-PROOF wedi cael ei weithredu'n llwyddiannus, a hefyd bod y symud i eiddo newydd swyddfa Caeredin wedi mynd yn eithriadol o dda.

Targedau Baich Gwaith – Mai 2009
Nododd y Bwrdd ein bod at ei gilydd yn agos i'r rhagolwg ond bod cymysgedd y dogfennau ychydig yn wahanol.

Cerdyn Sgorio Lefel y Manteisio ar e-ffeilio
Nododd y Bwrdd y bu hi'n fis da arall lle'r oedd niferoedd manteisio ar e-ffeilio yn y cwestiwn.

Targedau Cyhoeddus Tŷ'r Cwmnïau 2009/10
Nododd y Bwrdd y canlyniadau fel y cawsant eu cyflwyno.

Adroddiad Buddion – Chwarter Un
Nododd y Bwrdd gynnwys yr adroddiad fel yr oedd yn briodol.

Risgiau Tyngedfennol Bwrdd Busnes yr Asiantaeth
Adolygodd y Bwrdd y risgiau fel y cawsant eu cyflwyno.

Ymwybyddiaeth ag Amrywiaeth
Pleser gan y Bwrdd oedd nodi bod Tŷ'r Cwmnïau wedi ennill dyfarniad gan Gyrfa Cymru, Caerdydd a'r Fro, Partneriaeth Busnes Addysg, fel y 'Partner Busnes Mwyaf Trysoredig'.

Dirwyn y drefn *microfiche* i ben – Opsiynau
Trafododd y Bwrdd yr opsiynau a gyflwynwyd yn y papur, gan ofyn am i gyfarwyddyd prosiect gael ei baratoi ar gyfer cyfarfod y mis nesaf.

Cynnig i Roi Gwasanaeth Ar-lein 24/7 i Gwsmeriaid
Nododd y Bwrdd y cynnig i drefnu cyfnod prawf o ran argaeledd 24/7 y gwasanaethau ar-lein i gwsmeriaid.

Disodli'r Mewnosodydd Amlenni a'r Argraffydd sy'n Cynhyrchu Llythyrau Cod Dilysu WebFiling
Cytunodd y Bwrdd ag argymhelliad y papur y dylid prynu offer newydd.

Trefniadaeth Prosesu Papur yn yr Adran Gweithrediadau Canolog yn y Dyfodol
Nododd y Bwrdd rym y ddadl ansoddol ar gyfer cyflwyno prosesu cellog a gynigiai lawer mwy o wydnwch. Argymhellwyd llunio achos busnes manwl.

Ysgrifenyddiaeth Tŷ'r Cwmnïau
Mehefin 2009